ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO

IS-DDEDDFWRIAETH O DAN Y DDEDDF YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn ei gyfarfod ar 9 Mehefin 2004.

Cafwyd cyflwyniad byr gan y Gweinidog i'r papur (SJR-09-04(p.3)Atodiad) a gwahoddwyd y Pwyllgor i archwilio'r Gorchymyn Cychwyn drafft sy'n gysylltiedig â darpariaeth dai Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, cafwyd y sylwadau canlynol gan y Gweinidog:

- O dan Adran 17 o'r Ddeddf, roedd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pwer i ddelio â gwelliannau ac apeliadau.
- Byddai'n trafod darpariaeth y Ddeddf gyda'r Comisiynydd Plant, a'r pryderon y gellid ei defnyddio i wahaniaethu yn erbyn pobl ifanc.
- Byddai'r pwyntiau a wnaethpwyd gan yr aelodau o ran hawliau tenantiaid, gan gynnwys yr hawl i gael cyngor annibynnol, yn cael eu hystyried wrth lunio rheoliadau dilynol.
- Byddai rheoliadau o dan y ddeddf yn y dyfodol yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio cyn cael eu cyflwyno i'r Cyfarfod Llawn.
- Cafwyd cadarnhad gan y Gweinidog bod y Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn berthnasol i Landlordiaid Cymdeithasol yn unig. Nid yw'n berthnasol i landlordiaid preifat.

Janice Gregory AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio